

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 16 Hydref 2018 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd T Williams Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd S Morgans Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd L Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Mr A Morgan, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Lewis

20 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafodd ymddiheuriad dros absenoldeb ei dderbyn gan y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol E. Webster, S. Powderhill, P. Howe.

21 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

22 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

23 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion 11 Medi fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

24 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan Ddarpariaeth Pwerau Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 27.08.18 - 30.09.18

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd fanylion i Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 27 Awst, 2018 tan 30 Medi, 2018 a **PHENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

25 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

26 Ystyried y Cais canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr RSG o Gilfynydd ei groesawu gan yr Aelodau – roedd cais ger bron y Pwyllgor i adolygu ei Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor atal y Drwydded Yrru ar y Cyd Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat fel mesur cosb am gyfnod o ddau fis, gyda rhybudd llym ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

(Noder: Cyn i'r Ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd a oedd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

(Noder: Nid oedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol T. Williams yn bresennol ar gyfer ystyried y cais uchod ac roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Cox yn hwyr i'r cyfarfod ac wedi dewis peidio â bwrw'i bleidlais)

27 Digiddeiddio'r Broses Cyflwyno Cais - Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat

Rhoddodd Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â digideiddio proses ymgeisio Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl arddangos y broses ymgeisio ar-lein sy'n weddol newydd o hyd, **PENDERFYNODD** Aelodau dderbyn adolygiad o'r broses yn y Flwyddyn Newydd.

28 Crynodeb Gorfodi (Gan Gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod 01.09.18 - 05.10.18

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 1 Medi, 2018 tan 5 Hydref, 2018.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

29 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan Ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 27.08.18 - 30.09.18

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf i Aelodau, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 27 Awst, 2018 tan 30 Medi, 2018.

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm

**Y Cyngorydd A Fox
Cadeirydd.**